Mwynhau dysgu a llwyddo gyda'n gilydd.

Ysgol Carreg Emlyn

Clocaenog, Rhuthun, Sir Ddinbych, LL15 2AY

Tel: Clocaenog 01824 750636 Cyffylliog 01824 710274

ysgol.carreg.emlyn@sirddinbych.gov.uk

www.ysgolcarregemlyn.cymru

@carregemlyn

Newyddion 27/2/17 News

Dydd Gwyl Ddewi/ St Davids Day

COFIWCH y byddwn yn dathlu Gwyl Ddewi yn yr ysgol **DYDD MERCHER.** Bydd croeso i'r plant ddod i'r ysgol yn yn eu gwisgoedd Cymreig i ddathlu'r achlysur. Byddwn hefyd yn coginio a gwerthu cacennau cri fel rhan o ymgyrch 'Pobi dros Bobath'. Byddwn yn gwerthu y cacennau am £1 ac fe fydd yr arian yn mynd i helpu plant yng Nghymru sydd a pharlys yr ymennydd. *We will be celebrating St David's Day in school on **Wednesday March 1st** and we would like the children to come to school in their Welsh outfits to celebrate the occasion. We will also be baking and selling Welsh cakes and taking part in 'Baking for Bobath'. We will be selling the cakes for £1 and the money raised will go to help children in Wales who have cerebral palsy.*

pobi dros bobath

Diwrnod y Llyfr / Book Day

Bydd yn Ddiwrnod y Llyfr **DYDD IAU**. Gofynnwn i'r plant ddod a'i hoff lyfr i'r ysgol i'w rannu. Byddwn hefyd yn cael gweithgareddau hwyliog i annog plant i ddarllen. *It will be World Book Day on **THURSDAY**. We ask the children to bring their favourite book to school. We will also be having fun activities during the day to show children that reading is fun!*

Clwb 100
Chwefror / February

1st – £50: Tina & Alan Roberts (7)
2nd – £40: Teulu Bryngwyn (52)
3rd – £30: Eira & Delwyn Lewis (29)

Dyddiadau i'w Cofio
Dates for your Diary

28/2/17 CA2 Clwb yr Urdd *Club KS2*
1& 15/3/17 Clwb Celf yr Urdd Bl 1/*Yr 1 Urdd Craft Club*
1/3/17 Dathlu Dydd Gwyl Ddewi *Celebrating St David's Day (DIM NOFIO / NO SWIMMING)*
2/3/17 Dathlu Diwrnod y Llyfr / *Celebrating Book Day*
4/3/17 Eisteddfod Gylch yr Urdd – Rhuthun / *Urdd Area Eisteddfod – Ruthin*
7, 14 & 21/3/17 CA2 Clwb yr Urdd *Club KS2*
8/3/17 Clwb Celf yr Urdd Bl 2/*Yr 2 Urdd Craft Club*
10/3/17 Diddanu Gymdeithas Capel Derwen a Clawddnewydd / *Entertaining Clawddnewydd and Derwen Chapel members* – Canolfan Cae Cymro.
22/3/17 Celf a Chrefft yr Urdd – Cylch Rhuthun / *Urdd Arts and Craft Competition – Ruthin Area*
24/3/17 Casgliad dillad BAG2SCHOOL *Clothes collection*
31/3/17 Bingo Pasg Cyfeillion yr Ysgol / *Friends of the School Easter Bingo.* Canolfan Cae Cymro 6pm.
1/4/17 Eisteddfod Sir yr Urdd *County Eisteddfod*
7/4/17 Cau dros Pasg / *Close for Easter*
24/4/17 Diwrnod Hyfforddiant Staff / *Staff Training Day*
25/4/17 Plant yn cychwyn / *Children re start*

easyfundraising feel good shopping

Mae mor hawdd ag 1, 2, 3…..
1. Ewch i https://www.easyfundraising.org.uk/causes/carregemlyn/ ac ymuno am ddim.
2. Pob tro yr ydych yn mynd ar lein ewch i easyfundraising gyntaf i ddod o hyd i'r siop neu'r wefan ac yna dechrau siopa!
3. Ar ôl i chi dalu am eich nwyddau bydd y cwmni yn rhoi cyfraniad i Ysgol Carreg Emlyn - ac ni fydd yn costio dim i chi

It's as easy as 1, 2, 3...
1. Head to https://www.easyfundraising.org.uk/causes/carregemlyn/ and join for free.
2. Every time you shop online, go to easyfundraising first to find the site you want and start shopping.
3. After you've checked out, that retailer will make a donation to Ysgol Carreg Emlyn for no extra cost whatsoever!

Tim Peldroed y Merched
Girls Football Team

Llongyfarchiadau MAWR i dim peldroed y merched am ennill pob gêm yn eu grwp mewn twrnament yn erbyn ysgolion Dyffryn Clwyd cyn hanner tymor. Diolch i Mr Evans am fod yn hyfforddwr ardderchog! Fel y gwelwch roedd y merched wedi gwirioni! *A HUGE congratulations to the girls' football team which won all the games in their group in a tournament for Vale of Clwyd schools before half term. Thanks to Mr Evans for being such an excellent trainer! As you can see, the girls were ecstatic!*

Seren yr Wythnos

Llongyfarchiadau i Gwydion, Anest, Ela, Elan a tim peldroed y marched, sef Katie, Gwenno, Angharad, Ellie, Ella, Ffion a Bethan am fod yn Sêr yr Wythnos. Da iawn chi!

Eisteddfod yr Urdd

Cofiwch y bydd Eisteddfod yr Urdd Cylch Rhuthun yn Ysgol Brynhyfryd dydd Sadwrn yma sef Mawrth 4ydd. **Bydd gofyn i'r plant sydd yn y partion a'r côr i wisgo siwmper ysgol borffor, crys polo gwyrddlas, trowsus neu sgert gyda teits llwyd ac esgidiau du (dim bwts).** Gofynnwn i'r unigolion wisgo gwisg ysgol hefyd i gystadlu gan eu bod yn cynrychioli'r ysgol. Bydd y rhagbrofion yn y bore a'r cystadleuthau llwyfan yn y prynhawn. Rydym wedi rhannu rhaglen y rhagbrofion a'r llwyfan gyda chi cyn hanner tymor. Bydd y partion a'r côr i gyd ar y llwyfan yn y prynhawn. Mae'n annodd rhoi union amser y cystadleuthau llwyfan ond gofynnwn i'r partion fod yn Ysgol Brynhyfryd yr amseroedd canlynol. Mae'n debygol y byddwn angen ymarfer sydyn cyn mynd ar y llwyfan.

Parti Llefaru / *Recitation Party* – 2.30pm
Parti Unsain / *Unison Singing Party* –3.30pm
Parti Cerdd Dant *Singing Party* – 3.30pm
Cor / *Choir – 4.30pm*

The Urdd Eisteddfod will take place this Saturday March 4th. ***The children that are part of a group or the choir will need to wear purple school jumper, green polo shirt, trousers or skirt with grey tights and black shoes (no boots)****. We also ask the solo competitors to wear their school uniform as they are representing the school. We have shared the programme for the morning prelims and afternoon stage competitions with you before half term. All parties and choir will be on stage in the afternoon. It is very difficult to know exactly what time the afternoon stage competitions will take place but we would like the parties/choir to be in Ysgol Brynhyfryd the times shown above. We will probably need a quick practice before competing on stage.*

POB LWC I BAWB / GOOD LUCK TO EVERYONE

Wythnos Diogelwch / Safety Week

Cawsom wythnos brysur iawn cyn hanner tymor gyda'r plant yn dysgu sut i gadw yn ddiogel mewn gwahanol sefyllfaoedd. Cawsant hyfforddiant Cymorth Cyntaf Heartstart, ymweld a Phentre Peryglon, dysgu sut i gadw'n ddiogel o amgylch dŵr a sut i gadw'n ddiogel ar y fferm. Diolch i'r NFU am adnoddau a gwobrau i'n helpu i ddysgu am ddiogelwch y fferm. Diolch hefyd i Gwenan Evans am ddod i ddangos i'r plant meithrn a derbyn sut i fod yn ddiogel o amgylch cwn, Dydd Gwener cafodd plant Bl 1-6 gyngor gan yr NSPCC ar beth i wneud os nad oeddynt yn teimlo'n ddiogel, a phwy i droi ato am gymorth. Mae ychydig o luniau ar y dudalen nesaf ond am fwy o luniau ewch i'n cyfri trydar neu i wefan yr ysgol. *We had a very busy week before half term with the pupils learning how to keep safe in different situations. They had Heartstart First Aid training, a visit to Dangerpoint, they learnt how to keep safe near water and also on the farm. A big thanks to the NFU for resources and prizes to help teach the children about farm safety. Thanks as well to Gwenan Evans for coming in to show the reception and nursery children how to keep safe around dogs. On Friday Yr 1-6 pupils were given advice from the NSPCC on who to turn to if they don't feel safe. There are some photos on the next page but if you want to see more pleas go to the school's twitter account or th school website.*

Wythnos Diogelwch 2017
Safety Week

Diogelwch y Fferm